**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20fed o Fehefin 2011**

**CRYNODEB O GYNNYDD YN ERBYN ADOLYGIADAU MEWNOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad i'r Aelodau o gynnydd nifer o adolygiadau mewnol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at Amcanion Strategaeth Adnoddau'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2011/12.

## Cyflwyniad

2 Yng Nghynllun Lleihau Risg a Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mae tri amcan strategaeth adnoddau, dau ohonynt yw "I newid agweddau strwythur a ffyrdd o weithredu'r sefydliad" ac "Adolygu a gwella prosesau busnes mewnol".

3 Byddai'r rhain yn cael eu cyflawni drwy wneud nifer o adolygiadau a gweithredu ffyrdd newydd o weithio. Dyma enghreifftiau o'r adolygiadau a newidiadau a gynigwyd:

- i) gweithredu'r strwythur swyddogion newydd;
- ii) cyflwyno ffyrdd newydd o gyflwyno'r swyddogaeth diogelwch tân deddfwriaethol;
- iii) adolygu'r swyddogaeth staff cefnogi;
- iv) ailgynllunio'r swyddogaeth cefnogi a datblygu gweithredol;
- v) ailgynllunio'r swyddogaeth hyfforddiant, datblygu ac addysgu.

4 Mae'n amlwg fod canlyniadau llawer o'r adolygiadau yma'n rhyng-gysylltiedig.

**Gwybodaeth**

5 Daeth ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyrff cynrychioli i ben yn Ionawr 2011 gyda chytundeb ar y nifer o swyddi a ddylid eu dileu o'r sefydliad gwreiddiol a dosbarthiad y swyddi oedd yn weddill.

6 Digwyddodd trafodaethau proffesiynol rhwng yr holl reolwyr canol gweithredol a'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân er mwyn dyrannu swyddi a chynorthwyo gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth.

7 Gwnaethpwyd gwaith paratoi ar gyfer newid strwythur yn un pryd o dan arweinyddiaeth y pedwar Rheolwr Ardal, fel rhan o grŵp gweithredu dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons.

8 Daeth y strwythur newydd i rym ar 1 Ebrill 2011. Bydd y manteision gweithredol yn cael eu monitro'n chwarterol gan y grŵp gweithredu. Bydd yr arbedion ariannol o'r ailstrwythuro, sef £450,000 yn cael ei fonitro gan y Grŵp Gweithredol.

9 Mae'r strwythur Diogelwch Tân newydd, gafodd ei beilota llynedd wedi cael ei gyfuno yn y strwythur newydd sy'n amnewid swyddi gweithredol gyda naw swyddog cydymffurfio ar delerau ac amodau'r llyfr Gwyrdd (staff cefnogi).

10 Mae cwrs hyfforddi cenedlaethol wedi ei ganfod a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu'r swyddogion cydymffurfio newydd dros gyfnod o 18 mis. Mae'r swyddi wedi eu hysbysebu'n fewnol.

11 Mae adolygiad gweinyddol ar fynd ar hyn o bryd, ochr yn ochr gyda phrawf cefnogaeth weinyddol chwe mis i orsafoedd y System Dyletswydd Rhan Amser Ynys Môn.

12 O ganlyniad i'r adolygiad a wnaed ar yr adran cefnogaeth weithredol, bu ailstrwythuro gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth i'r Rheolwyr Ymateb yn y siroedd, er mwyn iddynt gael mwy o amser i ganolbwyntio ar safonau gweithredol yn eu hardaloedd.

13 Yn yr un modd, mae adolygiad o’r adran hyfforddi wedi cynhyrchu newidiadau a fydd yn galluogi mwy o gefnogaeth hyfforddiant arbenigol ar orsafoedd heb gost ychwanegol.

**Argymhelliad**

14 Gofynnir i Aelodau nodi’r cynnydd hyd yma yn erbyn yr Amcanion Strategaeth Adnoddau.